Adolygiad o'r rheolau yng Nghod Darlledu Ofcom ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: Dydd Mercher, 14 Mawrth 2018

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 9 Mai 2018

Gwybodaeth am y ddogfen hon

O dan God Darlledu Ofcom ("y Cod"), mae ffilmiau sydd wedi cael dosbarthiad '15' neu '18' gan y BBFC yn gallu cael eu darlledu yn ystod y dydd ar sianelau ffilmiau talu wrth wylio a rhai sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr, ar yr amod eu bod wedi'u diogelu gan god PIN gorfodol. **Gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd** yw enw'r math yma o warchodaeth, a does dim modd i wylwyr ei dileu na'i hanwybyddu.

Mae'r ddogfen hon yn egluro cynnig i ymestyn rheolau'r Cod ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Bydd hyn yn golygu bod y rhaglenni sydd ond yn gallu cael eu dangos ar ôl y trothwy 9pm ar hyn o bryd yn gallu cael eu dangos cyn 9pm ar sianelau teledu sydd wedi'u hamserlennu, ond dim ond os oes gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar waith. Mae cynulleidfaoedd heddiw yn gallu gwylio amrywiaeth fawr o raglenni ar unrhyw amser ac yn unrhyw le bron, drwy wasanaethau ar-alwad a thanysgrifio. Felly, rydym ni o'r farn y byddai'r cynnig i ymestyn y rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn galluogi'r Cod i adlewyrchu'r cyd-destun gwylio teledu yn y DU wrth iddo newid, ac y gallai roi mwy o ddewis i oedolion wrth wylio yn ystod y dydd. Fodd bynnag, mae ein cynnig hefyd yn amddiffyn y trothwy 9pm fel un o nodweddion hollbwysig gwasanaethau darlledu, ac yn sicrhau bod mesurau amddiffyn cadarn yn dal ar waith ar gyfer plant.

Felly, yn y wybodaeth ganlynol, rydym yn asesu effeithiau posib diweddaru'r Cod i ymestyn y rheolau presennol ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd er mwyn iddynt fod yn berthnasol i gynnwys sydd ddim yn ffilmiau. Rydym yn defnyddio gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd i edrych ar arferion gwylio ar hyn o bryd, agweddau at ddefnyddio systemau amddiffyn gyda PIN a pha mor effeithiol ydyn nhw. Rydym hefyd yn edrych ar yr effeithiau posib ar ddefnyddwyr (gan gynnwys plant) ac ar rannau gwahanol o'r sector darlledu.

Mae Ofcom yn deall mai dim ond sianelau sydd ar gael ar lwyfannau teledu drwy dalu fyddai'n gallu cyflwyno gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar hyn o bryd, ac nad yw hyn yn ymarferol ar hyn o bryd am resymau technegol ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darlledu am ddim (FTA) drwy Deledu Daearol Digidol, fel Freeview.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ein cynnig, gan gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth gan randdeiliaid ar gyfer yr elfennau canlynol:

- amddiffyn plant;
- y gofynion technegol ar gyfer cyflwyno system gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd;
- yr effeithiau posib ar gystadleuaeth ac yn y sector darlledu; a
- newidiadau drafft y byddem yn bwriadu eu gwneud i reolau'r Cod petaem yn ymestyn y rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd.

Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r holl wybodaeth a ddaw i law cyn llunio ein casgliadau terfynol.

Cynnwys

Geirfa 1

1. Cyflwyniad 4

Geirfa

Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD)

Cyfarwyddeb sy'n rheoli'r broses o gydlynu deddfwriaethau cenedlaethol ar wasanaethau teledu traddodiadol, ac ar wasanaethau rhaglenni ar-alwad, ar draws yr UE.

Cod Darlledu

Llyfr rheolau Ofcom y mae'n rhaid i bob darlledwr teledu a radio ei ddilyn. Mae rheolau'r Cod yn berthnasol i'r holl gynnwys sy'n cael ei ddarlledu (rhaglenni a ffilmiau)[1].

Teledu daearol digidol

Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

Recordydd fideo digidol

(Mae hefyd yn cael ei alw'n 'recordydd fideo personol' ac yn 'recordydd teledu digidol'). Bocs pen-set ar gyfer teledu digidol, ac mae'n cynnwys gyriant disg galed sy'n gadael i'r defnyddiwr stopio rhaglenni teledu byw am gyfnod, eu 'weindio' yn ôl a'u recordio.

Cyfeirydd rhaglenni electronig

Amserlen rhaglenni – a ddarlledir ochr yn ochr â gwasanaethau radio neu deledu digidol fel arfer – sy'n rhoi gwybodaeth am gynnwys rhaglenni a phryd maen nhw'n cael eu dangos. Mae modd defnyddio'r cyfeirydd i ddod o hyd i raglenni hefyd.

Cynnwys sy'n cael ei ddarlledu am ddim (FTA)

Cynnwys a ddarlledir y gall pobl ei wylio neu wrando arno heb orfod talu am danysgrifiad na ffi am wylio'r cynnwys hwnnw.

Teledu protocol rhyngrwyd

Y term a ddefnyddir ar gyfer y llwyfan teledu sy'n darparu sianelau i wylwyr drwy ddefnyddio technoleg protocol rhyngrwyd dros gysylltiad band eang. Mae'n cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun sianelau sy'n cael eu ffrydio a chynnwys ar-alwad fel arfer.

PIN gorfodol

Dull gorfodol o amddiffyn y gynulleidfa, sy'n galluogi defnyddwyr i gyfyngu mynediad at gynnwys anaddas. Does dim modd i ddefnyddwyr ddileu'r dull hwn, ac mae'n rhaid rhoi PIN (rhif personol) bob tro y bydd defnyddwyr yn ceisio cael gafael ar y cynnwys. Perchennog y cyfrif fydd yn gorfod dewis y PIN, a dim ond y rheini sydd wedi'u hawdurdodi fydd yn cael gweld y cynnwys.

Metadata

Set o ddata sy'n disgrifio data arall ac yn rhoi gwybodaeth amdano.

Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alwad (ODPS)

Gwasanaeth Fideo Ar-alwad sy'n cael ei reoleiddio gan Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, er enghraifft: gwasanaethau dal i fyny darlledwyr (fel ITV Hub, All4), gwasanaethau tanysgrifio ar-alwad (fel Amazon Prime ac Amazon Video) a

[1] A gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC ("ODPS").

gwasanaethau sy'n darparu llyfrgell o gynnwys teledu o'r archif.

Gwasanaethau fideo dros y rhyngrwyd (OTT)

Mae'n cyfeirio at gynnwys clyweledol sy'n cael ei ddarparu ar y rhyngrwyd 'agored' yn hytrach na drwy saernïaeth IPTV a reolir (fel Netflix).

Teledu drwy dalu

Gwasanaeth sy'n darparu cynnwys talu wrth wylio neu wasanaeth tanysgrifio – gyda ffi fisol fel arfer – sy'n cynnig llawer o wasanaethau teledu y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu darlledu am ddim. Mae'n gallu cael ei ddarparu drwy ddull cebl, lloeren, digidol daearol a/neu'r rhyngrwyd (fel IPTV).

Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

(neu darlledwr gwasanaeth cyhoeddus). Mae'r sianelau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys holl sianelau'r BBC, ITV (gan gynnwys GMTV, STV ac UTV), Channel 4, prif sianelau Channel 5 ac S4C.

Cynnwys wedi'i ffrydio

Ffeiliau sain neu fideo sy'n cael eu cywasgu a'u hanfon dros y rhyngrwyd a'u defnyddio gan y defnyddiwr wrth iddyn nhw gyrraedd. Mae ffrydio yn wahanol i lwytho i lawr, lle bydd cynnwys yn cael ei gadw ar ddisg galed y defnyddiwr cyn iddo ddefnyddio'r cynnwys.

SVOD

Gwasanaeth tanysgrifiad fideo ar-alwad ("SVOD"), fel Netflix neu Amazon Prime Video.

Cynnwys teledu sy'n cael ei amserlennu

Rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu a'u gwylio yn unol ag amserlen sydd wedi'i gosod gan y darlledwr. Mae'r rhaglenni hyn ar gael i'r holl wylwyr ar yr un pryd, ac yn cael eu rhestru yn y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig. Mae teledu dal i fyny yn cyfeirio at wasanaethau ar-alwad sy'n gadael i ddefnyddwyr wylio cynnwys rywbryd eto ar ôl y darllediad cyntaf.

Gwylio'n ddiweddarach

Gwylio rhaglenni sy'n cael eu recordio a'u gwylio rywbryd eto ar set deledu ar ôl y darllediad byw, yn ogystal â gwylio cynnwys teledu byw sydd wedi cael ei stopio am gyfnod a'i 'weindio' yn ôl.

Llwyfan integredig fertigol

Darparwyr llwyfannau sydd â rheolaeth lwyr dros swyddogaethau'r dyfeisiau sy'n rhan o'u hystad.

Fideo ar-alwad

Gwasanaeth sy'n gadael i'r defnyddwyr ddewis pryd maen nhw'n gwylio cynnwys teledu. Mae gwasanaethau fideo ar-alwad yn cynnwys gwasanaethau dal i fyny darlledwyr (e.e. BBC iPlayer, All4) a gwasanaethau tanysgrifiad fideo ar-alwad (e.e. Netflix, Amazon Prime Video). Mae gwasanaethau fideo ar-alwad sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom yn cael eu galw'n wasanaethau rhaglenni ar-alwad ("ODPS").

PIN gwirfoddol

Dull o amddiffyn y gynulleidfa sy'n gadael i ddefnyddwyr gyfyngu mynediad at wasanaethau fideo ar-alwad, rhaglenni a sianelau penodol. Pan fydd PIN wedi'i osod, bydd yn rhaid i ddefnyddwyr roi rhif pedwar digid i gael gafael ar y cynnwys sydd wedi'i gyfyngu. Fodd bynnag, gall defnyddwyr ddewis peidio â defnyddio'r dull hwn neu ei ddiffodd os ydyn nhw'n dymuno.

Trothwy 9pm

Mae’r trothwy yn ddull o amddiffyn y gynulleidfa, a dim ond i gynnwys teledu y mae’n berthnasol. Mae'r trothwy yn dechrau am 21:00. Yn gyffredinol, ni ddylai deunydd sy’n anaddas i blant gael ei ddangos cyn 21:00 nac ar ôl 05:30.

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cod Darlledu Ofcom ("y Cod") yn mynnu bod darlledwyr teledu yn cydymffurfio â dau ofyniad allweddol sydd wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn gwarchod plant rhag cynnwys a allai fod yn anaddas iddyn nhw:

- y trothwy (mae'r ddogfen hon yn cyfeirio ato fel **"trothwy 9pm"**). Dull o amddiffyn y gynulleidfa yw'r trothwy ac mae'n mynnu na ddylai darlledwyr, yn gyffredinol, ddangos deunydd sy'n anaddas i blant cyn 21:00 nac ar ôl 05:30. Mae'r trothwy 9pm yn ddull cyfarwydd y gellir ymddiried ynddo i amddiffyn plant, ac mae'n bwysig iawn i gynulleidfaoedd[2]; a
- mynediad cyfyngedig gorfodol (mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at hyn fel "**gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd**"). Dull o amddiffyn y gynulleidfa yw hwn, ac mae'n defnyddio PIN (rhif adnabod personol) er mwyn cyfyngu mynediad at ddeunydd anaddas, a does dim modd i'r defnyddiwr gael gwared arno. Mae'n rhaid rhoi PIN bob tro er mwyn awdurdodi mynediad at y cynnwys. Ar hyn o bryd, dydy'r Cod ddim ond yn caniatáu'r dull amddiffyn hwn ar gyfer ffilmiau sydd wedi cael dosbarthiad '15' neu '18' gan y BBFC[3], ac sy'n cael eu darlledu yn ystod y dydd ar sianelau ffilmiau talu wrth wylio a'r rhai sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr.

1.2 Rydym ni o'r farn bod y trothwy 9pm a'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn ddulliau sy'n cyd-fynd â'i gilydd er mwyn gwarchod plant rhag cynnwys anaddas.

1.3 Mae Ofcom yn cynnig ymestyn y rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd, y tu hwnt i sianelau ffilmiau talu wrth wylio a'r rhai sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr. Bydd hyn yn golygu bod rhaglenni sydd ond yn gallu cael eu dangos ar ôl y trothwy 9pm[4] ar hyn o bryd yn gallu cael eu dangos unrhyw adeg o'r dydd ar sianelau teledu sy'n cael eu hamserlennu, ond dim ond os oes system amddiffyn ar waith sy'n defnyddio PIN gorfodol.

1.4 Byddai'r cynnig i ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn amodol ar allu darlledwyr a llwyfannau. Mae Ofcom yn deall mai dim ond sianelau sydd ar gael ar lwyfannau teledu drwy dalu fyddai'n gallu cyflwyno system PIN gorfodol ar hyn o bryd, ac nad yw hyn yn ymarferol ar hyn o bryd am resymau technegol ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darlledu am ddim (FTA) drwy Deledu Daearol Digidol, fel Freeview, Rydym yn edrych yn fanylach ar hyn yn Adran 5.

1.5 Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i ni ar hyn o bryd i asesu effaith bosib diweddaru'r Cod i ymestyn y rheolau presennol ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd, er mwyn iddyn nhw fod yn berthnasol i gynnwys sydd ddim yn ffilmiau. Rydym yn defnyddio gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd i edrych ar arferion gwylio ar hyn o

[2] Daytime PIN Research 2017, tudalen 6. Kantar Media, 20fed Chwefror 2018.
[3] Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.
[4] Neu 20:00 o ran ffilmiau sydd wedi cael dosbarthiad 15. Edrychwch ar baragraff 1.9.

bryd, agweddau at ddefnyddio systemau amddiffyn gyda PIN a pha mor effeithiol ydyn nhw. Rydym hefyd yn edrych ar yr effeithiau posib ar ddefnyddwyr (gan gynnwys plant) ac ar wahanol rannau o'r sector darlledu.

Cefndir y rheolau a'r adolygiad

1.6 O dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), mae gan Ofcom ddyletswydd i osod safonau ar gyfer cynnwys a ddarlledir a fydd, yn ein tyb ni, yn fodd i sicrhau amcanion y safonau. Un o amcanion y safonau yw sicrhau bod "unigolion o dan ddeunaw oed yn cael eu hamddiffyn"[5]. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn Adran Un y Cod. Rydym ni o'r farn bod y safonau rydym wedi'u gosod er mwyn amddiffyn plant ymysg y rhai pwysicaf yn y Cod, a byddan nhw'n dal yn flaenoriaeth i ni.

1.7 O dan Reol 1.4 y Cod, mae'n rhaid i ddarlledwyr teledu gadw at y trothwy 9pm. Mae hyn yn golygu na ddylid dangos deunydd teledu sy'n anaddas i blant cyn 21:00 nac ar ôl 05:30 yn gyffredinol. Pwrpas y trothwy 9pm yw gwarchod plant rhag cynnwys teledu sy'n anaddas iddyn nhw. Mae gwaith ymchwil Ofcom yn dangos mai'r trothwy 9pm yw'r dull amddiffyn pwysicaf a mwyaf gwerthfawr i rieni.

1.8 Fodd bynnag, ers i'r Cod gael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2005, mae hefyd wedi gadael i fath penodol o gynnwys teledu sy'n anaddas i blant gael ei ddarlledu cyn y trothwy 9pm (h.y. rhwng 05:30 a 21:00) os oes "mynediad cyfyngedig gorfodol" ar waith (h.y. PIN gorfodol). Dyma'r diffiniad yn y Cod:

"Mae mynediad cyfyngedig gorfodol yn golygu system sy'n cael ei diogelu gan rif adnabod personol (PIN), neu amddiffyniad cyfatebol arall, na all y defnyddiwr gael gwared arni, sy'n cyfyngu mynediad i'r rhai sydd wedi'u hawdurdodi i wylio'n unig".

1.9 Yn benodol, mae sianelau ffilmiau sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr yn cael darlledu ffilmiau sydd wedi cael dosbarthiad 15 gan y BBFC, neu rai sy'n cyfateb iddyn nhw, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod bod system amddiffyn sy'n defnyddio PIN gorfodol ar waith rhwng 05:30 ac 20:00. Hefyd, caiff gwasanaethau talu wrth wylio ddarlledu ffilmiau hyd at ddosbarthiad 18 y BBFC, ar yr amod bod PIN gorfodol ar waith i gyfyngu ar y gwylio rhwng 05:30 a 21:00.

[5] Adran 319 (2) (a)

Rheol 1.24: Caiff gwasanaethau ffilm premiwm i danysgrifwyr ddarlledu ffilmiau hyd at ddosbarthiad 15 y BBFC neu rai sy'n cyfateb iddyn nhw, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod bod mynediad cyfyngedig gorfodol ar waith cyn 2000 ac ar ôl 0530.

Hefyd, rhaid i'r systemau diogelu hynny sydd ar waith i amddiffyn plant gael eu hesbonio'n glir i'r holl danysgrifwyr.

Rheol 1.25: Caiff gwasanaethau talu wrth wylio ddarlledu ffilmiau hyd at ddosbarthiad 18 y BBFC neu rai sy'n cyfateb iddyn nhw, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod bod mynediad cyfyngedig gorfodol ar waith cyn 2100 ac ar ôl 0530.

Hefyd:

- rhaid darparu gwybodaeth am gynnwys rhaglen a fydd yn helpu oedolion i asesu ei haddasrwydd i blant;
- rhaid cael system filio fanwl i danysgrifwyr sy'n rhestru'n glir bob dim a gafodd ei wylio, gan gynnwys amseroedd a dyddiadau gwylio; a
- rhaid i'r systemau diogelu hynny sydd ar waith i amddiffyn plant gael eu hesbonio'n glir i'r holl danysgrifwyr

1.10 Dim ond dau o'r amryw o ddulliau sydd ar gael i amddiffyn y gynulleidfa yw'r trothwy 9pm a'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd. I gael rhestr fwy cynhwysfawr, edrychwch ar y tabl ar dudalen 18 isod.

1.11 Ers i'r Cod gael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2005, mae technoleg a dulliau o ddarparu cynnwys wedi newid yn sylweddol. Er enghraifft, mae llawer mwy o wasanaethau fideo ar-alwad yn cael eu darparu a'u gwylio, gyda chwech o bob 10 oedolyn (59%) yn gwylio rhaglenni ar wasanaethau o'r fath erbyn hyn[6]. Mae gwasanaethau fideo ar-alwad yn cynnwys gwasanaethau dal i fyny, e.e. BBC iPlayer, ITV Hub, All4[7], a gwasanaethau tanysgrifio sy'n ffrydio fideo dros y rhyngrwyd ac yn darparu cynnwys sydd ddim o reidrwydd wedi cael ei ddarlledu o'r blaen, e.e. Amazon Prime Video a Netflix. Mae llawer mwy yn gwylio'n ddiweddarach hefyd, drwy ddefnyddio dyfeisiau recordydd fideo digidol i recordio rhaglenni (gan gynnwys rhaglenni ar ôl y trothwy 9pm) i'w gwylio ar ôl iddyn nhw gael eu darlledu. Mae hyn yn galluogi'r defnyddiwr i ddewis pryd mae'n eu gwylio, ac fe allai hynny fod y tu allan i oriau'r trothwy. Yn 2017, roedd gan 62% o gartrefi recordydd fideo digidol[8].

[6] Daytime PIN Research 2017, tudalen 17. Kantar Media, 20fed Chwefror 2018.
[7] O dan Siarter a Chytundeb newydd y BBC, ond mae'r Cod yn berthnasol i BBC iPlayer pan fydd hynny'n briodol.
[8] Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau 2017, tudalen 79. Ofcom, 3ydd Awst 2017.

1.12 Dim ond i wasanaethau teledu a ddarlledir y mae'r Cod yn berthnasol. Does dim gofyniad cyfatebol o ran trothwy ar gyfer "gwasanaethau rhaglenni ar-alwad", neu "ODPS"[9]. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai darlledwyr sy'n rheoli'r broses o benderfynu a threfnu pryd mae cynnwys yn cael ei ddangos ar eu gwasanaethau teledu, ond bod gan gynulleidfaoedd ODPS reolaeth lwyr dros pryd maen nhw'n gwylio cynnwys sydd ar gael ar-alwad. Felly dydy rheolau'r safonau sy'n berthnasol i ODPS[10], sy'n cyflwyno gofynion sylfaenol y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol[11], ddim yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar pryd y gellir gwylio cynnwys ODPS a allai fod yn anaddas i blant.

1.13 Fodd bynnag, yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o wasanaethau rhaglenni ar-alwad yn darparu amryw o fesurau i amddiffyn y gynulleidfa er mwyn sicrhau na fydd plant yn cael gafael ar ddeunydd anaddas (darllenwch baragraff 3.10 i gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol ddulliau amddiffyn hyn). Er enghraifft, roedd aelodau o'r Gymdeithas Darlledwyr Masnachol[12] wedi llofnodi Datganiad Ymarfer gwirfoddol ym mis Chwefror 2016, i ymrwymo i wneud diogelwch plant yn flaenoriaeth ar eu gwasanaethau fideo ar-alwad, ac i gynnig amryw o fesurau amddiffyn ar gyfer eu gwasanaethau ar-alwad a dal i fyny sydd ar gael ar deledu[13]. Mae'r holl Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5) – sydd ddim yn aelodau o'r Gymdeithas Darlledwyr Masnachol – hefyd yn cynnig gwahanol ddulliau rheoli i rieni, fel systemau amddiffyn sy'n defnyddio PIN y gellir eu gosod i gyfyngu mynediad at gynnwys â dosbarthiad penodol ar eu gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (BBC iPlayer, ITV Hub, All4 a My5).

Cais am fewnbwn a gwaith ymchwil

1.14 Ym mis Hydref 2014, cawsom ymateb i'r ymgynghoriad ar Gynllun Blynyddol Ofcom[14] gan aelodau o'r Gymdeithas Darlledwyr Masnachol, yn gofyn i Ofcom ystyried diwygio rheolau'r Cod ar gyfer systemau amddiffyn sy'n defnyddio PIN yn sgil datblygiadau yn y

---

[9] Deddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd) sy'n gosod y fframwaith statudol ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Dydy'r gwasanaethau hyn (ac eithrio BBC iPlayer) ddim yn ddarostyngedig i'r Cod, ond yn hytrach i set o reolau statudol uwch https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/54922/rules_and_guidance.pdf).

[10] Ibid. Dim ond Rheol 11 sy'n berthnasol i amddiffyn y rheini sydd o dan 18 oed, ac mae'n mynnu'r canlynol ar hyn o bryd: "Rhaid i Wasanaeth Rhaglenni Ar-alwad beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd dan gyfyngiadau arbennig [fel cynnwys â dosbarthiad R18] oni bai fod y deunydd ar gael mewn ffordd sy'n diogelu na fydd pobl ifanc o dan 18 fel rheol yn ei weld na'i glywed".

[11] Cyfarwyddeb 2010/13/UE 10 Mawrth 2010. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cael eu hadlewyrchu yn adran 368A a'r wybodaeth ddilynol yn y Ddeddf.

[12] Dyma aelodau'r Gymdeithas Darlledwyr Masnachol: MTG, NBC Universal, Fox, QVC, Sky, Viasat World, Scripps Networks International, A+E Networks, Discovery, Sony, Walt Disney, Turner ac AMC Networks. Mae'r aelodau cysylltiol yn cynnwys Viacom ac UKTV.

[13] http://www.coba.org.uk/coba_latest/content-providers-commit-to-protect-on-demand-viewers/.

[14] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/76344/cba.pdf.

maes gwylio ar-alwad. Mae aelodau'r gymdeithas wedi ymateb i ymgyngoriadau dilynol ar y Cynllun Blynyddol, gan ddweud y dylai Ofcom adolygu systemau amddiffyn sy'n defnyddio PIN ar draws gwahanol lwyfannau gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau sy'n cael eu hamserlennu – ym marn y gymdeithas – yn cael eu cyfyngu gan broses reoleiddio sy'n dyddio fwy a mwy[15].

1.15 Ym mis Hydref 2015, cynhaliodd Ofcom gyfres o gyfarfodydd â darlledwyr a darparwyr llwyfannau i drafod systemau amddiffyn sy'n defnyddio PIN gorfodol, gan gynnwys ymarferoldeb ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Ofcom Gais am Fewnbwn[16] i gasglu ystod ehangach o safbwyntiau gan randdeiliaid ar gynnig posib i ehangu rheolau presennol y Cod ar gyfer defnyddio gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Byddai hynny'n golygu bod y rheolau'n berthnasol i gynnwys sydd ddim yn ffilmiau. Roedd y Cais am Fewnbwn wedi casglu gwybodaeth ac wedi edrych ar safbwyntiau rhanddeiliaid ar bedair elfen allweddol:

- y manteision i gynulleidfaoedd a'r effeithiau negyddol arnynt;
- y cyfyngiadau technegol ar ddarparwyr cynnwys a llwyfannau;
- yr effaith ar y trothwy ac effeithiolrwydd mynediad cyfyngedig gorfodol; ac
- unrhyw faterion yn ymwneud â chystadleuaeth.

1.16 Mae'r wybodaeth a'r safbwyntiau a gafwyd ynghylch y pedair elfen uchod yn cael eu hystyried drwy'r ymgynghoriad hwn i gyd, ac wedi llywio cynnig Ofcom a chwestiynau'r ymgynghoriad.

1.17 I grynhoi, dangosodd yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn fod darlledwyr a darparwyr llwyfannau yn rhanedig i raddau helaeth o ran eu cefnogaeth i ddiweddaru'r rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Maent wedi'u rhannu rhwng y rheini sy'n gallu – a'r rheini sydd ddim yn gallu – mynd ati'n rhwydd i gynnig neu ddefnyddio system PIN gorfodol yn ystod y dydd. Roedd y rheini a oedd o blaid yn cynnwys y darparwyr sydd â rheolaeth lwyr dros eu hystad bocsys pen-set (fel Sky a Virgin Media), ac sydd felly'n gallu cyflwyno gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar gynnwys sydd wedi cael dosbarthiad penodol.

1.18 Yn groes i hynny, yn 2016 dywedodd llwyfannau FTA eu bod yn gwrthwynebu diweddaru'r Cod. Nid oedd ganddynt yr un rheolaeth dechnegol dros eu hystad bocsys pen-set er mwyn galluogi cyfyngiadau PIN ar wasanaethau a oedd yn cael eu darparu drwy deledu daearol digidol. Felly, yn eu barn nhw, ni fyddai'n bosib yn y tymor byr i ganolig i'r sianelau hyn ddefnyddio'r newid yn y rheol nes byddai datblygiadau technolegol yn golygu bod modd sicrhau gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar bob bocs pen-set/teledu. Mae'r

[15] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0034/97954/COBA.pdf t.3.
[16] Mae'r Cais am Fewnbwn ac ymatebion y rhanddeiliaid a gyhoeddwyd ar gael yma ar wefan Ofcom: https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/mandatory-daytime-pin-protections.

cyfyngiadau technolegol hyn wedi'u hamlinellu yn Adran 5, ac mae'r effeithiau ar gystadleuaeth a dewis defnyddwyr yn cael eu hystyried yn fanylach yn Adran 6.

1.19 Roedd yr ymatebion i'n Cais am Fewnbwn hefyd yn awgrymu y byddai darlledwyr, yn gyffredinol, yn annhebygol o ddefnyddio gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar raddfa eang. Rydym yn edrych yn fanylach ar hyn hefyd yn Adran 4.

1.20 Ochr yn ochr â'r Cais am Fewnbwn, yn 2016 fe wnaethom gomisiynu Kantar Media i wneud gwaith ymchwil meintiol cychwynnol ar ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd o systemau PIN, eu defnydd ohonynt a'u hagweddau atynt. Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn edrych ar arferion gwylio ar draws gwasanaethau fideo ar-alwad a theledu sy'n cael eu hamserlennu[17].

1.21 Ers y Cais am Fewnbwn, mae Ofcom wedi defnyddio'r amser i gomisiynu Kantar Media i gynnal rhagor o waith ymchwil ar arferion gwylio teuluoedd yn ogystal ag ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd o systemau PIN, eu defnydd ohonynt a'u hagweddau atynt. Roedd y gwaith ymchwil hwn yn diweddaru'r gwaith ymchwil meintiol uchod a wnaed yn 2016, ac yn cynnwys gwaith ymchwil ansoddol newydd ar agweddau cynulleidfaoedd – gan gynnwys ymatebion manwl i'r posibilrwydd o ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Mae'r adroddiad Saesneg, 'Daytime Pin Research' gan Kantar Media, a gomisiynwyd gan Ofcom, ar gael ar y wefan: https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/daytime-pin-research Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi bod yn hollbwysig wrth lywio adolygiad Ofcom.

Beth yw diben yr adolygiad a'r ymgynghoriad hwn?

1.22 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig ymestyn y rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd er mwyn gallu darlledu cynnwys mwy amrywiol yn ystod y dydd, sydd ond yn gallu cael ei ddangos ar ôl y trothwy ar hyn o bryd. Gan gofio ein dyletswyddau statudol sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 1.29-1.32 isod, rydym ni'n credu ei bod yn briodol ystyried a ddylid diweddaru'r rheolau ar gyfer yr elfen hon, gan roi ystyriaeth i'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn sgil y Cais am Fewnbwn yn 2016 a chanlyniadau'r gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd rydym wedi'i wneud.

1.23 Dydy Ofcom ddim wedi ystyried hyd a lled y rheolau presennol ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ers i'r Cod gael ei roi ar waith am y tro cyntaf yn 2005, ac mae'r farchnad wedi newid yn sylweddol ers hynny. Erbyn hyn, mae cynulleidfaoedd yn gallu gwylio cynnwys amrywiol iawn ar unrhyw amser ac yn unrhyw le bron. Yn ogystal â gwylio gwasanaethau teledu byw (wedi cael eu hamserlennu), mae pobl yn gwylio mwy a mwy o wasanaethau ar-alwad (a gwylio'n ddiweddarach) sy'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr wylio cynnwys pryd bynnag maen nhw'n dymuno – mae hyn yn cynnwys mynd ati yn ystod y

[17] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/daytime-pin-research

dydd i wylio rhaglenni a ddarlledwyd ar ôl y trothwy 9pm. Mae'r cyd-destun gwylio presennol yn cael ei ystyried ymhellach yn Adran 3.

1.24 Y trothwy 9pm yw'r dull pwysicaf a mwyaf cyfarwydd i rieni o hyd er mwyn goruchwylio a rheoli'r hyn mae eu plant yn ei wylio ar sianelau teledu sydd wedi cael eu hamserlennu, a bydd yn dal yn rhan ganolog o arferion gwylio teuluoedd. Fodd bynnag, yn yr un modd â systemau eraill i amddiffyn y gynulleidfa, dim ond amserlen a hygyrchedd cynnwys y mae'r trothwy 9pm yn gallu eu rheoli; nid yw'n gallu rheoli cyfrifoldeb a dewisiadau rhieni. Er enghraifft, mae ein gwaith ymchwil ni yn dangos bod rhai plant yn gwylio rhaglenni heb eu rhieni ar ôl 9pm. Dywedodd rhai plant hefyd eu bod yn gwylio cynnwys a ddarlledir ar ôl y trothwy ar eu pen eu hunain weithiau ar wasanaethau ar-alwad (mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ym mharagraff 3.7).

1.25 Dydy Ofcom ddim yn ceisio tanseilio'r trothwy 9pm mewn unrhyw ffordd, o ran sicrhau amgylchedd gwylio diogel yn ystod y dydd ac yn gynnar fin nos. Yn hytrach na hynny, rydym bob amser wedi credu bod gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn cyd-fynd â'r trothwy 9pm, gan ei bod yn gwarchod plant rhag cynnwys a allai fod yn anaddas iddyn nhw.

1.26 Roedd ymateb y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol i'r Cais am Fewnbwn yn 2016, ac ymatebion amryw o ddarlledwyr a darparwyr llwyfannau eraill, yn dangos bod dyhead pendant i ehangu'r rheolau. Soniodd amryw o'r rhain am fanteision fel mwy o ddewis i gynulleidfaoedd, ac effeithiau cadarnhaol ar gystadleuaeth. Yn groes i hynny, doedd rhai sianelau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac FTA ddim o blaid diweddaru'r rheolau ar gyfer yr elfen hon. Ymysg rhesymau eraill, roedd y darlledwyr hyn yn dadlau y byddai'n creu anghyfartaledd rhwng y sectorau teledu drwy dalu ac FTA.

1.27 Mae'r Cais am Fewnbwn yn 2016 a gwaith ymchwil Ofcom ar gynulleidfaoedd wedi ein helpu i ddeall y gwahanol fanteision, risgiau a heriau sy'n gysylltiedig â diweddaru'r rheolau presennol ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn egluro asesiad Ofcom o dystiolaeth ein gwaith ymchwil a'r Cais am Fewnbwn, ac yn cyflwyno cynnig i ymestyn rheolau'r Cod ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Rydym yn croesawu safbwyntiau'r rhanddeiliaid ar hynny. Rydym hefyd yn nodi'r elfennau rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth yn eu cylch er mwyn helpu i lywio ein penderfyniadau. Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno safbwyntiau a sylwadau ar y dadansoddiad rydym wedi'i amlinellu, gyda thystiolaeth i gefnogi hynny pan fydd ar gael. Ar yr un pryd, rydym hefyd yn gofyn am sylwadau ar set o newidiadau drafft rydym yn bwriadu eu gwneud i'r Cod, os byddwn yn penderfynu diweddaru'r rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Mae'r newidiadau drafft yn cael eu hegluro yn Adran 7. Byddwn yn mynd ati'n ofalus i ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys unrhyw wybodaeth bellach a ddaw i law, cyn i ni wneud unrhyw benderfyniad terfynol.

Beth yw'r amcanion rheoleiddio?

1.28 Prif ddyletswydd Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau nifer o bethau, er enghraifft:

- bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau;
- bod safonau'n cael eu dilyn er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag deunydd ar wasanaethau teledu a radio a allai achosi tramgwydd neu niwed.

1.29 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau mae'n rhaid i Ofcom ystyried y canlynol hefyd, ymysg pethau eraill: pa mor ddymunol yw hyrwyddo cystadleuaeth yn y marchnadoedd perthnasol; pa mor ddymunol yw hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; a bregusrwydd plant.

1.30 Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i osod safonau – a'u hadolygu a'u haddasu o bryd i'w gilydd – er mwyn sicrhau amcanion y safonau yn adran 319 o'r Ddeddf. Rydym yn gwneud hyn drwy ddilyn y rheolau sydd wedi'u nodi yn y Cod. Yn benodol, mae Adran Un o'r Cod yn cynnwys rheolau ar gyfer amserlennu cynnwys sy'n anaddas i blant. Mae'r rhain yn cynnwys y trothwy 9pm a'r rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd.

1.31 Mae gan Ofcom ddyletswydd hefyd i sicrhau cyn lleied â phosib o faich rheoleiddio diangen ar y darlledwyr rydym yn eu rheoleiddio. Felly mae'n bwysig sicrhau bod y rheolau'n dal yn berthnasol ac yn gymesur, a'u bod yn adlewyrchu disgwyliadau cynulleidfaoedd ac ymddygiad gwylio wrth i hynny newid.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad hwn?

1.32 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar y cynnig i ymestyn y drefn bresennol ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd o dan Adran Un o'r Cod, ac ar newidiadau drafft i Adran Un o'r Cod a fyddai'n angenrheidiol er mwyn ymestyn y rheolau ar gyfer yr elfen hon.

1.33 Dim ond y rheolau ar gyfer y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd (mynediad cyfyngedig gorfodol) sy'n cael eu hadolygu. Does gan Ofcom ddim bwriad i addasu unrhyw reolau eraill y Cod ar gyfer y trothwy 9pm.

1.34 Mae Rheol 1.18 y Cod yn caniatáu dangos deunydd rhyw ar gyfer oedolion[18] ar ôl 22:00 ar wasanaethau talu wrth wylio/gwasanaethau premiwm i danysgrifwyr sy'n defnyddio PIN gorfodol. Dydy Ofcom **ddim** yn adolygu'r rheolau sy'n ymwneud â deunydd rhyw ar gyfer oedolion, ac ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r mynediad cyfyngedig gorfodol o dan Reol 1.18 yn sgil yr adolygiad hwn. Yn yr un modd, dydy'r ymgynghoriad hwn ddim yn adolygu'r gwaharddiad ar ddeunydd sydd wedi cael dosbarthiad R18[19] ar ddarllediadau llinellol (Rheol 1.17).

1.35 Fel y nodwyd ym mharagraff 1.12 uchod, dydy'r Cod ddim yn berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad[20], ac ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r rheolau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau hyn yn sgil yr adolygiad hwn.

1.36 Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn edrych yn fanylach ar yr hyn rydym yn ei gynnig a pham;
- Mae **Adran 3** yn nodi'r arferion gwylio presennol ar gyfer cynnwys llinellol ac ar-alwad yn y DU, ac yn rhoi canfyddiadau manwl ein gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd;
- Mae **Adran 4** yn edrych ar y goblygiadau posib i'r maes amddiffyn plant yn sgil ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd;
- **Mae Adran 5** yn ystyried yn fanylach y cyfyngiadau technegol sy'n gysylltiedig â'n cynnig i ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd;
- Mae **Adran 6** yn asesu'r effeithiau posib o ran cystadleuaeth ar wahanol grwpiau o randdeiliaid; ac
- Mae **Adran 7** yn gwahodd sylwadau ar y newidiadau drafft rydym yn bwriadu eu gwneud i Adran Un o'r Cod, os bydd Ofcom yn penderfynu ymestyn y rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd.

[18] Mae'r Cod yn diffinio "deunydd rhyw ar gyfer oedolion" fel "deunydd sy'n cynnwys delweddau a/neu iaith o natur rywiol gref sy'n cael eu darlledu'n bennaf er mwyn cynhyrfu neu gyffroi pobl yn rhywiol".
[19] Mae cynnwys sydd wedi cael dosbarthiad R18 gan y BBFC yn ddosbarthiad arbennig sydd â chyfyngiadau cyfreithiol, ac mae'n berthnasol yn bennaf i ddeunydd o natur rywiol amlwg sy'n dangos rhyw cydsyniol, neu ddeunydd ffetis cryf sy'n cynnwys oedolion. Dim ond i oedolion mewn sinemâu sydd â thrwydded arbennig y gellir dangos cynnwys o'r fath, neu i oedolion yn unig mewn siopau rhyw trwyddedig.
[20] Ac eithrio BBC iPlayer.

A1. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd hyn drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim rhan o'r ymateb ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Y Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

_____

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad, ac y caiff Ofcom ei chyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges ac atodiadau e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os yw'n gopi papur)

A2. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A2.1 Mae'r set gyfan o gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u rhestru isod. Mae rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd i ymateb i unrhyw gwestiynau y mae ganddynt safbwyntiau neu wybodaeth yn eu cylch. Does dim rhaid ateb pob cwestiwn.

Cwestiwn 1: Fyddai ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn cael effaith negyddol ar y trothwy 9pm? Allai'r newid leihau ffydd y cyhoedd yn y trothwy 9pm?

Cwestiwn 2: Fyddai ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn cynyddu'r risg bod plant yn gwylio cynnwys sydd wedi'i greu i gael ei wylio ar ôl y trothwy?

Cwestiwn 3: Pa mor effeithiol yw systemau PIN gorfodol ar hyn o bryd o ran amddiffyn plant? Fel rhan o'r ymateb hwn, rydym yn croesawu safbwyntiau ar ba mor effeithiol yw'r warchodaeth i blant iau a hŷn.

Cwestiwn 4: Beth mwy y gellid ei wneud i wneud systemau PIN yn fwy effeithiol?

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o'r cyfyngiadau technegol sy'n gysylltiedig ag ymestyn y rheolau ar gyfer y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd? A fu unrhyw ddatblygiadau technegol yn y maes hwn ers y Cais am Fewnbwn yn 2016?

Cwestiwn 6: Fel darlledwr neu ddarparwr llwyfan, ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau gyda'r broses o ddarparu neu gasglu'r metadata gofynnol er mwyn ymestyn y rheolau ar gyfer y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd?

Cwestiwn 7: Sut byddai hen ddyfeisiau, neu ddyfeisiau heb gysylltiad, yn delio ag ymestyn y rheolau ar gyfer y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd? Sut mae darlledwyr a darparwyr llwyfannau yn bwriadu sicrhau na fyddai perygl bod cynnwys anaddas, sydd ddim yn cael ei ddiogelu gan system PIN gorfodol, yn cael ei ddarlledu ar ddamwain?

Cwestiwn 8: Sut byddai'r swyddogaethau ar gyfer stopio cynnwys byw am gyfnod, ei weindio'n ôl a'i weindio ymlaen ar rai dyfeisiau yn gweithio gyda'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd?

Cwestiwn 9: Pa nodweddion hygyrchedd sydd ar gael ar hyn o bryd, neu y byddai modd eu cyflwyno, er mwyn i bobl â nam ar eu golwg allu cael gafael ar gynnwys sydd wedi'i gyfyngu gan system PIN gorfodol?

Cwestiwn 10: A oes unrhyw faterion technolegol, ymarferol neu gostau eraill yn gysylltiedig â hyn y dylai Ofcom fod yn ymwybodol ohonynt?

Cwestiwn 11: Pa fathau penodol o danysgrifwyr teledu drwy dalu fyddai'n gallu elwa o gael mwy o ddewis wrth wylio, yn sgil ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd? Byddem yn falch o gael gwybodaeth a thystiolaeth gan randdeiliaid am faint y grwpiau hynny.

Cwestiwn 12: I ba raddau y gallai ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd arwain at lai o ddewis i aelwydydd â phlant? Byddem yn falch o gael gwybodaeth a thystiolaeth gan randdeiliaid.

Cwestiwn 13: Fel darlledwr, fyddech chi'n debygol o ddefnyddio'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd i ddarlledu cynnwys ar eich sianel(au) chi? Pa fath o gynnwys fyddai hwnnw? Rhowch amcangyfrif o nifer yr oriau darlledu fyddai'n debygol o gael ei neilltuo i hynny mewn mis arferol.

Cwestiwn 14: I ba raddau y byddai mwy o ddewis ar gael i grwpiau o gartrefi sy'n defnyddio gwasanaethau teledu drwy dalu yn sgil ehangu'r rheolau ar gyfer y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd? Byddem yn falch o gael gwybodaeth a thystiolaeth.

Cwestiwn 15: I ba raddau y byddai cartrefi yn debygol o roi'r gorau i ddefnyddio llwyfannau FTA yn sgil darparu gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar lwyfannau teledu drwy dalu yn unig? Byddai Ofcom yn falch o gael gwybodaeth a thystiolaeth.

Cwestiwn 16: I ba raddau y byddai sianelau sy'n darlledu ar lwyfannau FTA ar hyn o bryd yn debygol o roi'r gorau i ddarlledu ar y llwyfannau hynny, oherwydd mai dim ond ar lwyfannau teledu drwy dalu y gellir defnyddio gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd? Byddai Ofcom yn falch o gael gwybodaeth a thystiolaeth.

Cwestiwn 17: I ba raddau y gallai ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd sbarduno cystadleuaeth rhwng llwyfannau? Beth yw'r effeithiau posib yn y tymor hirach o ran arloesi a buddsoddi? Byddai Ofcom yn falch o gael safbwyntiau a thystiolaeth.

Cwestiwn 18: I ba raddau y mae gwylwyr yn debygol o newid i ddefnyddio sianelau sy'n cynnig cynnwys y tu hwnt i warchodaeth orfodol yn ystod y dydd?

Cwestiwn 19: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad uchod o gystadleuaeth? Rhowch resymau a thystiolaeth pan fydd ar gael ar gyfer eich ateb.

Cwestiwn 20: Oes 'na unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill o ran cystadleuaeth nad yw Ofcom wedi'u hystyried? Rhowch fanylion.

Cwestiwn 21: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newidiadau a gynigir i'r rheolau yn Adran Un er mwyn gallu ymestyn y drefn ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd?

Cwestiwn 22: A ddylai'r rheolau diwygiedig adael i ffilmiau sydd wedi cael hyd at ddosbarthiad 15 y BBFC gael eu dangos am 20:00 ar sianelau ffilmiau premiwm i danysgrifwyr (fel y caniateir o dan y rheolau presennol)? Neu a fyddai cysondeb ar draws yr holl sianelau yn fwy buddiol?

Cwestiwn 23: Pa wybodaeth ddylai/allai gael ei darparu gyda rhaglenni sy'n defnyddio gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd er mwyn rhoi gwybodaeth i wylwyr am addasrwydd y cynnwys?